**GLANHÄWR**

**SWYDD-DDISGRIFIAD A MANYLEB YR UNIGOLYN**

| | |
|---|---|
| **Rôl:** | Glanhäwr |
| **Yn atebol i:** | Swyddog Cymorth Llywodraethu a Chorfforaethol |
| **Daliadaeth:** | Parhaol |
| **Cyflog:** | £12.13 yr awr |
| **Oriau**: | 10 awr yr wythnos |

**Pwy yw Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf**

Mae Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf wedi'i leoli yng nghalon Rhondda Cynon Taf yn ne Cymru odidog. Rydym yn falch o'n cymunedau a'n hanes wedi'i wreiddio'n ddwfn o ran darparu cartrefi a chefnogi'r bobl sy'n byw ynddynt. Mae ein cynllun corfforaethol yn amlinellu rhagor o fanylion am ein gweithgareddau, sy'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n hamcanion allweddol.

Ar hyn o bryd, rydym yn darparu 2000 o gartrefi ar rent, gan gynnwys 4 cynllun cartrefi i bobl hŷn, dwy loches i fenywod a nifer o brosiectau tai â chymorth sy'n cael eu darparu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Mae ein his-gwmni hynod uchel ei barch, Gofal a Thrwsio Cwm Taf, yn darparu gwasanaethau i bobl hŷn neu anabl sy'n byw mewn cartrefi preifat ar draws Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Ychwanegiad diweddar at y Grŵp yw Down to Zero, sef is-gwmni sy'n canolbwyntio ar liniaru effaith y newid yn yr hinsawdd, gan olrhain ôl troed carbon y Grŵp a chynnig hyfforddiant, gwirfoddoli a buddion uniongyrchol yn ôl i'n tenantiaid ac i'r gymuned ehangach. Yn anad dim, sefydliad pobl ydym ni, sy'n angerddol am ddarparu gwasanaethau a chymorth gwych, bod yn gyflogwr da a bod yn bartner uchel ei barch yn ein rhanbarth ac ar draws Cymru.

**Prif Ddiben y Rôl**

- Darparu gwasanaeth glanhau cynhwysfawr yn swyddfa'r Grŵp yn Abercynon.
- Cynorthwyo gofalwr y swyddfa â dyletswyddau amrywiol.
- Darparu gwasanaeth dal allweddi i swyddfa'r Grŵp yn Abercynon.

**Disgrifiad o'r Tasgau Allweddol**

Cyflawni tasgau glanhau cyffredinol sydd wedi'u hamlinellu ar y taflenni gwaith dyddiol sy'n cynnwys y tasgau canlynol, ymhlith eraill:

- Tynnu llwch a glanhau desgiau, gweithfannau ac amrywiol arwynebau;

- Tynnu llwch o ardaloedd lefel uchel gyda chyfarpar glanhau priodol;
- Glanhau lloriau a grisiau â sugnwr llwch / sgubo a golchi lloriau caled;
- Tynnu llwch a sychu siliau ffenestr, silffoedd, byrddau sgyrtin a gwaelodion cadeiriau/desgiau yn rheolaidd;
- Glanweithio mannau cyffwrdd, fel dolenni drysau, yn rheolaidd;
- Sicrhau bod cyflenwad digonol o bapur tŷ bach, tywelion papur a sebon ar gael bob amser yn ardaloedd priodol yr adeilad;
- Ar y cyd â'r Gofalwr, sicrhau bod pob bin (ailgylchu a gwastraff cyffredinol) yn cael eu gwacáu a gwaredu'r gwastraff yn unol â pholisi'r cwmni;
- Glanhau basnau ymolchi a thoiledau;
- Sicrhau bod y ceginau yn cael eu gadael yn lân ac yn daclus; llenwi a gweithio peiriannau golchi llestri
- Glanhau cypyrddau cegin, oergelloedd a microdonnau bob hyn a hyn;
- Dyletswyddau achlysurol yn unol â'r rôl

**Mesurau Perfformiad Allweddol**

- Tarfu cyn lleied â phosibl pan fydd cyfarfodydd yn mynd yn eu blaen a phan fydd staff ar y ffôn
- Dilyn gweithdrefnau a pholisïau'r Gymdeithas ar Ddiogelu Data a Chyfrinachedd
- Peidio â thynnu unrhyw blygiau trydan o socedi heb ganiatâd
- Cwblhau Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch i gyd-fynd â Pholisïau'r Gymdeithas
- Gweithio yn unol â chanllawiau Iechyd a Diogelwch y Grŵp a osodwyd gan Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch y Grŵp
- Cyflawni gwiriadau Iechyd a Diogelwch a diogeledd yr adeilad
- Cyflenwi ar ran y Gofalwr yn ystod absenoldebau, fel gwyliau blynyddol a salwch
- Bydd deiliad y swydd yn ddeiliad allweddi ac, felly, bydd yn gyfrifol am gloi'r adeilad ar ddiwedd y diwrnod gwaith a bydd yn gyfrifol am agor y swyddfa ar ddechrau'r diwrnod gwaith pan fydd yn cyflenwi ar ran y Gofalwr.
- Cynorthwyo â pharatoi a gosod ystafelloedd cyfarfod
- Cyflawni dyletswyddau eraill yn unol â chyfarwyddyd rheolwr llinell y swydd
- Rhoi gwybod i'r Gofalwr am unrhyw gyflenwadau/deunyddiau sydd eu hangen
- Rhoi gwybod am unrhyw waith trwsio'r swyddfa i'r Gofalwr/Rheolwr
- Cydweithio â'r Gofalwr a'r Rheolwr Llinell wrth drefnu a chymryd gwyliau
- Modelu gwerthoedd ac amcanion y Gymdeithas
- Dyletswyddau achlysurol yn unol â'r rôl

**Manyleb yr Unigolyn**

| | **HANFODOL** | **DYMUNOL** |
|---|---|---|
| **Sgiliau cyffredinol** | Gallu trefnu eich llwyth gwaith eich hun a blaenoriaethu rhwng tasgau cystadleuol; | Sgiliau datrys problemau rhesymol; |
| | Gallu gweithio o dan bwysau; | |
| | Rhifedd a llythrennedd cyffredinol; | |
| | Safon sylfaenol o sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar i ddarllen a deall cyfarwyddiadau; | |
| | Gallu gweithio heb oruchwyliaeth; | |
| | | |
| **Gwybodaeth** | Gwybodaeth / dealltwriaeth gyffredinol o ofynion Iechyd a Diogelwch; | |
| | e.e. cemegion glanhau a'r defnydd diogel ohonynt; | |
| | Ymwybyddiaeth o dechnegau codi a chario; | |
| | Dealltwriaeth gyffredinol o Ddiogelu Data; diogelu a chyfrinachedd | |
| | | |
| **Profiad** | Profiad o rôl lanhau / gofalwr neu debyg; | Profiad o weithio mewn amgylchedd sy'n delio â chwsmeriaid / yn ystyriol o gwsmeriaid; |
| | Profiad o ryngweithio â gwahanol bobl drwy gydol y diwrnod gwaith ar amrywiaeth o lefelau; | |
| **Personol** | Agwedd gadarnhaol;<br>Dibynadwy; | |
| | Gallu gweithio'n rhan o dîm ac o'ch pen a'ch pastwn eich hun; | |
| | Gallu ymgymryd â phob agwedd gorfforol ar y swydd; | |
| | Hyblygrwydd o ran patrymau / diwrnodau gweithio – gan gynnwys rhywfaint o waith gyda'r nos ac ar y penwythnos; | |
| | Brwdfrydedd; | |
| | Parodrwydd i wisgo dillad amddiffynnol; | |

| | | |
|---|---|---|
| | Parodrwydd i gefnogi/cyflenwi ar ran swyddogaethau glanhau eraill; | |
| | Ymrwymiad i gyfle cyfartal; | |
| | Ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth sy'n ystyriol o gwsmeriaid. | |

**Atodiad 1:**

EIN GWELEDIGAETH – Rydym am fod yn rhan o gymunedau hapus, iach a llewyrchus yn y cymoedd, lle mae gan bawb gyfle i fyw'n dda. EIN PWRPAS – Rydym ni yma i ddarparu cartrefi a chefnogaeth wych i'r bobl sy'n rhan o'n cymunedau. EIN HYMRWYMIAD I GYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH – Mae amrywiaeth yn gyfrifoldeb ar bawb. Rydym yn rhoi pwys ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn eu hyrwyddo ar bob lefel ar draws y sefydliad.

Ein Gwerthoedd

**ANGERDD –** Rydyn ni'n poeni'n angerddol am yr hyn rydyn ni'n ei wneud

**PARCH** – Rydym yn trin pawb â pharch

**CYFRIFOLDEB** – Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am ein gweithredoedd

**UNIONDEB** – Rydym yn cyflawni ein rolau yn onest ac yn ddidwyll

**RHAGORIAETH** – Rydyn ni bob amser yn gwneud ein gorau glas

**Amcanion allweddol:**

- Cefnogi cymunedau gwydn
- Darparu gwasanaethau rhagorol
- Cynyddu ein cyflenwad o gartrefi
- Diogelu ein cynaliadwyedd ariannol
- Buddsoddi yn ein trefniadau llywodraethu, ein pobl a'n systemau
- Gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gyflawni nodau a rennir

Ar draws pob blaenoriaeth y mae:

  - Tegwch a chydraddoldeb
  - Gwerth am arian
  - Lleihau ein heffaith amgylcheddol